

Tasg ddarllen



Helo! Fy enw i ydy Rhys Tom. Dw i'n byw yn Abertawe. Rydw i'n fachgen prysur iawn!
Dydd Llun dw i'n nofio. Dydd Mawrth dw i'n chwarae pêl-droed yn y parc. Dydd Mercher, dw i'n chwarae rygbi. Dydd Iau, dw i'n cael gwersi carati. Dydd Gwener, dw i wedi blino! Ar y penwythnos, dw i'n gwylio gemau pêl-droed a rygbi.

Helo! Liwsi Davies ydw i. Dw i'n byw yn Sir Benfro. Dw i'n hoffi'r môr. Dw i'n berson prysur iawn. Dydd Llun dw i'n nofio yn y pwll nofio. Dydd Mawrth dw i'n nofio yn y môr. Dydd Mercher dw i'n chwarae hoci yn yr ysgol. Dydd Iau dw i'n cael gwersi carati. Dydd Gwener, dw i'n gwylio rygbi ar y teledu. Ar y penwythnos, dw i'n nofio yn y môr a rhedeg.

Geiriau allweddol / Key words:

prysur	busy
yn y parc	in the park
gwersi	lessons
Ar y penwythnos	On the weekend
gwylio	to watch
môr	sea
teledu	television

1. Pwy sy'n byw yn Sir Benfro?
2. Pwy sy'n byw yn Abertawe?
3. Pwy sy'n nofio yn y môr ar ddydd Mawrth?
(môr = sea)
4. Pwy sy'n hofi gwylio gemau pêl-droed a rygbi?
5. Beth mae Rhys Tom yn ei wneud ar ddydd Mawrth?
6. Beth mae Rhys Tom yn ei wneud ar ddydd Iau?
7. Pwy sy'n chwarae hoci ar ddydd Mercher?
8. Beth mae Liwsí'n ei wneud ar y penwythnos?
(penwythnos = weekend)
9. Pwy sy'n cael gwersi carati?
10. Beth rwyf ti'n ei wneud ar ddydd Sadwrn? (you)